Ebrill 5ed 2006

Helo Bawb!!

Gobeithio i bob un ohonoch fwynhau'r penwythnos preswyl gawsom ym mis Hydref, a hoffem ddefnyddio'r cyfle hwn i ddiolch i bob un ohonoch am ein hethol.

Ar nodyn gwahanol, cawsom ein cyfarfod cyntaf ar 23ain Chwefror, ac roedd yn llwyddiant ysgubol. Roedd Christine Walby, Cadeirydd Ymddiriedolwyr Tros Gynnal wedi gallu ymuno â ni ar gyfer rhan gynta'r cyfarfod.

Yna, aethom ymlaen i ddewis logos ar gyfer y Grŵp Ymgynghori Pobl Ifanc (YPAG). Yna, fe wnaethom drafod a oeddem am newid yr enw i rywbeth arall, a dyma rai syniadau. Os oes gennych unrhyw syniadau eraill neu os hoffech roi sylwadau ar y rhain, cofiwch gysylltu:

- *Bwrdd Ieuenctid Tros Gynnal*
- *Llais Ieuenctid*
- *Grŵp Gwallgof Gwyllt Ifanc (fel y dewisodd Kelly #1)*

Aethom ymlaen i siarad am y ffordd y dylai'r grwp weithredu a dyma oedd y penderfyniad. Roedd y grŵp yn ddigon bach i neb arwain, ond mae angen pobl hŷn arnom i'n helpu i ddatblygu ein syniadau a'u gweithredu.

Cynigiwyd syniadau gennym am bynciau y teimlwn y dylid eu trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol ac yn ystod y drafodaeth hon daeth Mary a Nick, Ymddiriedolwyr Tros Gynnal atom a'n helpu. Y pynciau y teimlwn y mae angen ymdrin â hwy oedd:

- *Byw'n iach*
- *Sgiliau Bywyd*
- *Cyffuriau ac Alcohol*
- *Cyngor a help cyffredinol*
- *Pethau i'w gwneud – gweithgareddau i bobl ifanc*
- *Arian/Arian LCA (Lwfans Cynhaliaeth Addysg – arian 6ed dosbarth)*
- *Gwrando ar bobl ifanc ac ymgynghori â hwy ar faterion sy'n ymwneud â hwy*

Mae cynhadledd yn ymwneud â CAMHS hefyd (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed), pam mae pobl yn mynd yno a beth allai newid ein meddwl i fynd. Rydym am wneud araith fer ar hyn yn y gynhadledd – edrychodd pob un ohonom ar syniadau er mwyn ysgrifennu paragraff:

Edrychodd Sam ar Ddiabetes
Cyffuriau ac Alcohol
Cam-driniaeth Emosiynol
Methu deall

Cywilydd

Edrychodd Tara ar Ryddhau'r Gorffennol
Tristwch
Cam-drin
Nid yw pobl yn deall

Edrychodd Richard ar Gyffuriau ac Alcohol
Ergydio allan
Cariad ac emosiwn
Rhy hwyr

Edrychodd Kelly ar 'Sanau Gwahanol
Cywilydd
Hunan barch
Unig/bwlio

Mae gennym newyddion da – mae gan y Loteri Fawr grant y gallwn wneud cais amdano i gael arian fel y gallwn drefnu penwythnos preswyl. Mae Kelly (#2) a George am weithio ar hwn ar ein rhan. Rydym hefyd wedi archebu ystafell yn y Sioe Amaethyddol yn Llanfair-ym-Muallt i ddechrau trefnu'r penwythnos preswyl nesaf.A dyna'r cyfan oedd gennym amser i'w trafod yn ein cyfarfod cyntaf, felly unwaith eto diolch i chi am bleidleisio drosom.

Gwelwn bob un ohonoch cyn bo hir

Sam Kel Richard Tara
x x x x

O.N. Yn anffodus, nid oedd Anthony na Carl yn gallu dod i'r cyfarfod hwn – gobeithio y byddant yn gallu dod i'r nesaf.